Cyngor Caerdydd

SIARTER ARCHWILIO MEWNOL 2021/22

Datganiad Cenhadaeth

Gwella a diogelu gwerth sefydliadol drwy ddarparu sicrwydd,

cyngor a dealltwriaeth gwrthrychol ac ar sail risg.

CYNNWYS

Siarter Archwilio Mewnol 1

- Diffiniad, Amcan a Chwmpas yr Archwiliad Mewnol 1
- Rôl a Phroffesiynoldeb 1
- Awdurdod 1
- Sefydliad 2
- Annibyniaeth a Gwrthrychedd 2
- Cyfrifoldeb 3
- Cynllun Archwilio Mewnol 4
- Adrodd a Monitro 4
- Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella - QAIP 4

Atodiad A: Cod Moeseg 6

Atodiad B: Egwyddorion Craidd 9

Atodiad C: Gweithgaredd Archwilio ac Adnoddau 10

Atodiad D: Cylch Gorchwyl Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio 11

Atodiad E: Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella 15

Atodiad F: Protocol Archwilio 18

SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Diffiniad, Amcan a Chwmpas yr Archwiliad Mewnol

1. Mae Archwilio Mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori annibynnol a gwrthrychol a arweinir gan ei genhadaeth i wella ac diogelu gwerth sefydliadol drwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg.

2. Mae'n helpu Cyngor Caerdydd i gyflawni ei amcanion drwy ddod â dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd amgylchedd rheolaeth lawn y sefydliad o ran prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu.

Rôl a Phroffesiynoldeb

3. Sefydlir y gweithgarwch archwilio mewnol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Diffinnir cyfrifoldebau'r gweithgarwch archwilio mewnol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'i rôl oruchwylio.

4. Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol proffesiynol, annibynnol a gwrthrychol yn un o elfennau allweddol llywodraethu da mewn Llywodraeth Leol. Mae Adran Archwilio Mewnol Cyngor Caerdydd yn ceisio cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Nodyn Cais Llywodraeth Leol (NCLlL), sy'n ffurfio sylfaen ar gyfer gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol ac yn cwmpasu elfennau gorfodol Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA). Drwy gydymffurfio â'r safonau hyn, mae pob aelod o'r adran yn cydymffurfio â'r Cod Moeseg a nodir yn y Safonau. Mae'r canllawiau gorfodol hyn gyfystyr ag egwyddorion y gofynion sylfaenol ar gyfer arfer proffesiynol archwilio mewnol ac ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd perfformiad y gweithgarwch archwilio mewnol.

5. Nodir y Cod Moeseg yn fanylach yn Atodiad A ac mae'n gweithio'n unol â chod ymddygiad proffesiynol y Cyngor. Bydd y gweithgaredd archwilio mewnol yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol Cyngor Caerdydd, a phrotocol y gweithgarwch archwilio mewnol. Mae'r Egwyddorion Craidd y cyflwynir y gwasanaeth Archwilio Mewnol drwyddynt yn Atodiad B sydd, yn eu cyfanrwydd, yn mynegi effeithiolrwydd archwilio mewnol.

Awdurdod

6. Mae gan y gweithgaredd archwilio mewnol atebolrwydd cyfrinachedd llym ac o ran cadw cofnodion a gwybodaeth diogelu ac mae wedi'i awdurdodi i gael mynediad llawn, rhydd a digyfyngiad i unrhyw un o gofnodion, eiddo corfforol a phersonél y sefydliad sy'n berthnasol i gyflawni ymgysylltiad. Mae'n ofynnol i bob cyflogai gynorthwyo'r gweithgarwch archwilio mewnol i gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau. Bydd y gweithgarwch archwilio mewnol hefyd yn cael mynediad rhydd a digyfyngiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Sefydliad

7. Bydd y Rheolwr Archwilio'n adrodd yn swyddogaethol i'r Pwyllgor Lywodraethu ac Archwilio ac yn weinyddol i'r Pennaeth Cyllid (Dirprwy Swyddog Adran 151).

8. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo pob adroddiad ynghylch gwerthuso perfformiad y swyddogaeth Archwilio Mewnol.

9. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol, y cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg ac yn cael gohebiaeth gan y Rheolwr Archwilio ar berfformiad y gweithgarwch archwilio mewnol o gymharu â'i gynllun a materion eraill. Dirprwyir yr awdurdod i'r Rheolwr Archwilio wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r cynllun archwilio mewnol a chymeradwyo ymrwymiadau archwilio o ddim mwy na 10 diwrnod archwilio arfaethedig heb ofyn am gymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Bydd y Rheolwr Archwilio yn defnyddio'r adnoddau archwilio sydd ar gael i weithredu'r cynllun archwilio a phrynu adnoddau ychwanegol yn ôl y gofyn.

10. Bydd y rheolwyr yn hysbysu'r Rheolwr Archwilio ar unwaith, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor a pholisïau cysylltiedig, am amheuaeth o dorri amod, dwyn neu golli asedau'r Cyngor, ac unrhyw dwyll, llygredd neu amhriodoldeb a amheuir neu a ganfuwyd.

11. Mae'r adnoddau a ddyrennir i'r gweithgaredd Archwilio Mewnol yn Atodiad C, ar y cyd â'r trefniadau adrodd.

Annibyniaeth a Gwrthrychedd

12. Bydd y gweithgaredd archwilio mewnol yn aros yn rhydd rhag ymyrraeth gan unrhyw elfen yn y sefydliad gan gynnwys materion yn ymwneud â dethol archwilio, cwmpas, gweithdrefnau, amlder, amseru, neu gynnwys adroddiadau, er mwyn caniatáu cynnal agwedd feddyliol angenrheidiol, annibynnol a gwrthrychol.

13. Y Rheolwr Archwilio sy'n goruchwylio'r timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Mewn unrhyw achos lle mae gan y Rheolwr Archwilio rolau a / neu gyfrifoldebau sydd y tu allan i archwilio mewnol, neu lle y disgwylir bod ganddo hynny, sefydlir mesurau diogelu i gynnal annibyniaeth a gwrthrychedd.

14. Ni fydd gan archwilwyr mewnol unrhyw gyfrifoldeb nac awdurdod gweithredol uniongyrchol dros unrhyw un o'r gweithgareddau a archwilir. Yn unol â hynny, ni fyddant yn gweithredu rheolaethau mewnol, yn datblygu gweithdrefnau, yn gosod systemau, yn paratoi cofnodion nac yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd arall a allai amharu ar farn archwilydd mewnol.

15. Rhaid i archwilwyr mewnol arddangos y lefel uchaf o wrthrychedd proffesiynol wrth gasglu, gwerthuso a chyfleu gwybodaeth am y gweithgaredd neu'r broses sy'n cael ei harchwilio. Rhaid i archwilwyr mewnol wneud asesiad cytbwys o'r holl amgylchiadau perthnasol a rhaid iddynt beidio â gadael i'w buddiannau eu hunain nac eraill ddylanwadu'n ormodol arnynt wrth lunio barn.

16. Bydd archwilwyr yn llenwi ffurflen Datgan Buddiannau yn flynyddol ac yn ei chyflwyno i'r Rheolwr Archwilio i'w hadolygu a'i hawdurdodi. Defnyddir unrhyw ddatganiadau i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau yn yr archwiliadau a ddyrennir ac i ddangos tryloywder. Ni fydd Archwilydd y Grŵp yn dyrannu archwiliadau i swyddogion lle y nodwyd bod gwrthdaro posibl.

17. Bydd y Rheolwr Archwilio yn cadarnhau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o leiaf unwaith y flwyddyn annibyniaeth sefydliadol y gweithgarwch archwilio mewnol.

Cyfrifoldeb

18. Mae cwmpas archwilio mewnol yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, archwilio a gwerthuso digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y sefydliad mewn perthynas â nodau ac amcanion diffiniedig y sefydliad. Mae amcanion rheolaeth fewnol a ystyrir gan archwiliad mewnol yn cynnwys:

    - Cysondeb gweithrediadau neu raglenni gydag amcanion a nodau sefydledig a pherfformiad effeithiol

    - Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithrediadau a defnyddio adnoddau.

    - Cydymffurfio â pholisïau, cynlluniau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau arwyddocaol.

    - Dibynadwyedd a chywirdeb prosesau rheoli a gwybodaeth ariannol gan gynnwys y modd i nodi, mesur, dosbarthu ac adrodd am wybodaeth o'r fath

    - Diogelu Asedau

19. Mae'r Archwilydd Mewnol yn gyfrifol am werthuso holl brosesau'r Cyngor, gan gynnwys prosesau llywodraethu a phrosesau rheoli risg. Mae hefyd yn cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i werthuso ansawdd perfformiad archwilwyr allanol ac yn cynnal lefel briodol o gydgysylltu ag archwiliad allanol.

20. Gall archwilio mewnol gyflawni gwasanaethau ymgynghori a chynghori sy'n ymwneud â llywodraethu, rheoli risg a rheoli, fel y bo'n briodol i'r Cyngor. Gall hefyd werthuso gweithrediadau penodol ar gais Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio neu reolwyr fel y bo'n briodol.

21. Pan gaiff wybod bod amheuaeth o dwyll, llygredd neu amhriodoldeb, bydd y Rheolwr Archwilio yn cymryd camau priodol yn unol â Pholisi Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth y Cyngor er mwyn ymchwilio'n briodol i'r mater.

22. Yn seiliedig ar ei weithgarwch, mae'r Archwiliad Mewnol yn gyfrifol am adrodd am risg sylweddol a materion rheoli y caiff y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr wybod amdanynt gan gynnwys risgiau twyll, materion llywodraethu a materion eraill sy'n ofynnol neu y mae eu hangen.

23. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gylch Gorchwyl, sy'n diffinio'r maes y mae'n gweithredu ynddo. Cafodd y Cylch Gorchwyl ei adolygu yng ngoleuni newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a nodir Cylch Gorchwyl drafft diwygiedig yn Atodiad D (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor llawn). Caiff y Cylch Gorchwyl ei adolygu o bryd i'w gilydd.

Cynllun Archwilio Mewnol

24. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd y Rheolwr Archwilio yn cyflwyno cynllun archwilio mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w adolygu a'i gymeradwyo gan gynnwys meini prawf asesu risg. Bydd y cynllun archwilio mewnol yn cynnwys gofynion adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y Rheolwr Archwilio yn cyfleu effaith cyfyngiadau adnoddau a newidiadau dros dro sylweddol i'r uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

25. Caiff y cynllun archwilio mewnol ei ddatblygu yn seiliedig ar flaenoriaethu pob maes archwiliadwy gan ddefnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar risg gan gynnwys mewnbwn yr uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gymeradwyo, gellir trafod y cynllun gydag uwch reolwyr priodol. Bydd unrhyw wyriad sylweddol o'r cynllun archwilio mewnol cymeradwy yn cael ei gyfleu drwy'r broses adrodd ar weithgarwch cyfnodol.

Adrodd a Monitro

26. Caiff allbwn archwilio ei baratoi a'i gyhoeddi gan y Rheolwr Archwilio ar ôl i bob ymgysylltu ag archwiliadau a chaiff ei ddosbarthu fel y bo'n briodol.Bydd canlyniadau archwilio mewnol yn cael eu cyfleu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â'r Protocol Archwilio, ac ar sail sy'n adlewyrchu arwyddocâd y canfyddiadau.

27. Gall allbwn yr archwilio gynnwys ymateb y rheolwyr a'r camau unioni a gymerwyd neu y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r canfyddiadau ac argymhellion penodol. Bydd ymateb y rheolwyr, p'un a ydynt wedi'u cynnwys yn allbwn yr archwiliad gwreiddiol neu wedi eu darparu ers hynny gan reolwyr yr ardal a archwiliwyd yn cynnwys amserlen ar gyfer pryd y rhagwelir y cwblheir y camau ac esboniad am unrhyw gamau unioni na chânt eu gweithredu.

28. Bydd y gweithgarwch archwilio mewnol yn gyfrifol am ddilyn canfyddiadau ac argymhellion ymgysylltu yn briodol. Bydd yr holl ganfyddiadau arwyddocaol yn aros mewn ffeil materion agored nes eu bod wedi'u clirio.

Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella - RhSAG

29. Bydd y gweithgarwch archwilio mewnol yn cynnal Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cwmpasu pob agwedd ar y gweithgarwch archwilio mewnol. Bydd y rhaglen yn cynnwys gwerthusiad o gydymffurfiad y gweithgarwch archwilio mewnol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, sy'n cwmpasu holl elfennau gorfodol yr IPPF, gan gynnwys gwerthusiad i weld a yw archwilwyr mewnol yn cymhwyso'r Cod Moeseg. Mae'r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd y gweithgaredd archwilio mewnol ac yn nodi lle mae cyfleoedd i wella.

30. Mae'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifol am gynnal y Siarter Archwilio, am sicrwydd parhaus i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gydymffurfio â'r Cod Moeseg a'r Safonau, ac am adrodd ar berfformiad archwilio, canfyddiadau a thueddiadau beirniadol mewn perthynas â'r cynllun archwilio.

31. Bydd y Rheolwr Archwilio yn cyfathrebu ag uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar raglen sicrwydd ansawdd a gwella'r gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n cynnwys canlyniadau:

    - adolygiadau sicrwydd ansawdd mewnol parhaus,
    - asesiadau blynyddol yn erbyn y Nodyn Cais Llywodraeth Leol
    - asesiadau allanol a gynhelir o leiaf bob pum mlynedd.

32. Nodir y camau a gymerwyd i sicrhau bod y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella yn effeithiol yn Atodiad E. Caiff ei ategu gan y Protocol Archwilio, sy'n rhoi amlinelliad o'r broses archwilio o gynllunio i adrodd, fel sydd yn Atodiad F.

COD MOESEG

Gofyniad y Sector Cyhoeddus

Rhaid i Archwilwyr Mewnol mewn sefydliadau sector cyhoeddus yn y DU gydymffurfio â'r Cod Moeseg fel y nodir isod. Os oes gan Archwilydd Mewnol unigol aelodaeth o gorff proffesiynol arall yna rhaid iddo gydymffurfio hefyd â gofynion perthnasol y sefydliad hwnnw.

Diben Cod Moeseg y Sefydliad yw hyrwyddo diwylliant moesegol yn y proffesiwn Archwilio Mewnol. Mae cod moeseg yn angenrheidiol ac yn briodol ar gyfer y proffesiwn Archwilio Mewnol, sy'n seiliedig fel y mae ar yr ymddiriedaeth sydd yn ei sicrwydd gwrthrychol ynghylch rheoli risg, rheoli a llywodraethu.

Mae Cod Moeseg y Sefydliad yn ymestyn y tu hwnt i ddiffiniad Archwilio Mewnol ac mae'n cynnwys dwy elfen hanfodol:

- 1. Egwyddorion sy'n berthnasol i'r proffesiwn ac arfer Archwilio Mewnol;

  a

- 2. Rheolau Ymddygiad sy'n disgrifio normau ymddygiad a ddisgwylir gan Archwilwyr Mewnol.

Mae'r rheolau hyn yn gymorth i ddehongli'r Egwyddorion wrth ymarfer a'r bwriad yw eu bod yn llywio ymddygiad moesegol Archwilwyr Mewnol.

Mae'r Cod Moeseg yn rhoi arweiniad i Archwilwyr Mewnol sy'n gwasanaethu eraill. Cyfeiria 'Archwilwyr Mewnol' at aelodau'r Sefydliad a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau Archwilio Mewnol o fewn diffiniad Archwilio Mewnol.

Cymhwysedd a Gorfodi

Mae'r Cod Moeseg hwn yn berthnasol i unigolion ac endidau sy'n darparu gwasanaethau Archwilio Mewnol. Ar gyfer aelodau'r Sefydliad, bydd torri'r Cod Moeseg yn cael ei werthuso a'i weinyddu yn unol â Gweithdrefnau Disgyblu'r Sefydliad. Nid yw'r ffaith na sonnir am ymddygiad penodol yn y Rheolau Ymddygiad yn ei atal rhag bod yn annerbyniol neu'n annheilwng nac felly yn arbed yr aelod rhag camau disgyblu.

Dehongli'r Sector Cyhoeddus

Mae'r 'Sefydliad' yma yn cyfeirio at y Sefydliad Archwilwyr Mewnol. Gall gweithdrefnau disgyblu cyrff proffesiynol eraill a sefydliadau sy'n cyflogi wneud cais i dorri'r Cod Moeseg hwn.

1. Gonestrwydd

Egwyddor

Mae uniondeb Archwilwyr Mewnol yn sefydlu ymddiriedaeth ac felly mae'n gosod sylfaen ar gyfer dibynnu ar eu barn.

Rheolau Ymddygiad

Bydd Archwilwyr Mewnol:

1.1 Yn cyflawni eu gwaith gyda gonestrwydd, diwydrwydd a chyfrifoldeb.

1.2 Yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn gwneud datgeliadau a ddisgwylir gan y gyfraith a'r proffesiwn.

1.3 Ni fyddant yn fwriadol yn rhan o unrhyw weithgaredd anghyfreithlon, nac yn cymryd rhan mewn gweithredoedd sy'n dwyn anfri ar y proffesiwn Archwilio Mewnol neu i'r sefydliad.

1.4 Byddant yn parchu ac yn cyfrannu at amcanion cyfreithlon a moesegol y sefydliad.

2. Gwrthrychedd

Egwyddor

Mae Archwilwyr Mewnol yn arddangos y lefel uchaf o wrthrychedd proffesiynol wrth gasglu, gwerthuso a chyfleu gwybodaeth am y gweithgaredd neu'r broses sy'n cael ei harchwilio.

Mae Archwilwyr Mewnol yn gwneud asesiad cytbwys o'r holl amgylchiadau perthnasol ac nid yw eu buddiannau eu hunain nac eraill yn dylanwadu'n ormodol arnynt wrth lunio barn.

Rheolau Ymddygiad

Ni fydd Archwilwyr Mewnol:

2.1 yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd neu berthynas a allai amharu ar eu hasesiad diduedd neu a dybir sy'n yn amharu ar ei asesiad diduedd. Mae'r cyfranogiad hwn yn cynnwys y gweithgareddau neu'r perthnasau a allai wrthdaro â buddiannau'r sefydliad.

2.2 yn derbyn unrhyw beth a allai amharu ar eu barn broffesiynol neu a dybir sy'n amharu ar eu barn broffesiynol.

2.3 Byddant yn datgelu'r holl ffeithiau perthnasol sy'n hysbys iddynt a allai, os na chânt eu datgelu, aflunio sut yr adroddir am weithgareddau sydd dan arolwg.

3. Cyfrinachedd

Egwyddor

Mae Archwilwyr Mewnol yn parchu gwerth a pherchnogaeth gwybodaeth a gânt ac nid ydynt yn datgelu gwybodaeth heb awdurdod priodol, oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol neu broffesiynol i wneud hynny.

Rheolau Ymddygiad

Bydd Archwilwyr Mewnol:

3.1 yn ddarbodus wrth ddefnyddio a diogelu gwybodaeth a gânt wrth gyflawni eu dyletswyddau.

3.2 yn peidio â defnyddio gwybodaeth er unrhyw enillion personol nac mewn unrhyw ffordd a fyddai'n groes i'r gyfraith neu'n niweidiol i amcanion cyfreithlon a moesegol y sefydliad.

4. Cymwyseddau

Egwyddor

Mae Archwilwyr Mewnol yn cymhwyso'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ym maes gwasanaethau Archwilio Mewnol.

Rheolau Ymddygiad

Bydd Archwilwyr Mewnol:

4.1 Yn gweithredu yn y gwasanaethau y mae ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol amdanynt yn unig.

4.2 Yn cyflawni gwasanaethau Archwilio Mewnol yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol Archwilio Mewnol.

4.3 Yn gwella eu hyfedredd, eu heffeithiolrwydd ac hansawdd eu gwasanaethau yn barhaus.

EGWYDDORION CRAIDD

AR GYFER YMARFER ARCHWILIO MEWNOL PROFFESIYNOL

Cyflawnir y gwasanaeth Archwilio Mewnol drwy weithredu deg Egwyddor Craidd sydd, yn eu cyfanrwydd, yn mynegi effeithiolrwydd archwilio mewnol.

Mae'r Egwyddorion Craidd canlynol yn sail i genhadaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol.

‘Gwella a diogelu gwerth sefydliadol drwy ddarparu sicrwydd, cyngor a dealltwriaeth gwrthrychol ac ar sail risg’.

1. Dangos hygrededd
2. Dangos cymhwysedd a gofal proffesiynol priodol
3. Gwrthrychol a heb ddylanwad gormodol (annibynnol)
4. Cyd-fynd â strategaethau, amcanion a risgiau'r sefydliad
5. Mewn lleoliad priodol a chyda digon o adnoddau
6. Dangos ansawdd a gwelliant parhaus
7. Cyfathrebu’n effeithiol
8. Rhoi sicrwydd sy'n seiliedig ar risg
9. Craff, rhagweithiol a ffocws ar y dyfodol
10. Hyrwyddo gwelliant sefydliadol

GWEITHGAREDD ARCHWILIO AC ADNODDAU

Adnoddau

1. Rheolwr Archwilio -1 CALl - yn gyfrifol am arwain a rheoli'r timau archwilio ac ymchwilio wrth gyflawni eu rolau, fel y nodir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS), a Chodau Ymarfer proffesiynol eraill.

2. Tîm Archwilio - 9.53 CALl - sy'n cynnal archwiliadau yn seiliedig ar systemau, archwiliadau ariannol, yn rhoi cyngor ac arweiniad i gleientiaid ar ystod eang o faterion, ac yn ymgymryd â gwaith sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd a gwerth am arian.

3. Tîm Ymchwilio - 2.5 CALl - wedi ymrwymo i atal, canfod ac ymchwilio twyll neu amhriodoldeb ariannol honedig.

4. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff archwilio gynnal y safonau ymarfer proffesiynol uchaf, a chydymffurfio â Chodau Ymarfer proffesiynol. Dilynir Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ym mhob agwedd ar y gwaith archwilio mewnol a wneir.

5. At ddibenion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gweithredu fel y "Bwrdd", mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn cynrychioli 'Uwch Reolwyr', a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Swyddog Adran 151 yw'r Uwch Reolwr sy'n goruchwylio'r Swyddogaeth Archwilio Mewnol. Y Rheolwr Archwilio yw'r Prif Weithredwr Archwilio.

6. Mae gan bob archwilydd ac ymchwilydd gymwysterau addas ac maent gyda'i gilydd yn cynnig ystod eang o sgiliau, profiad a gwybodaeth.

    - Yn y tîm Archwilio, mae yna ddau Gyfrifydd cymwysedig, un Archwilydd Mewnol Siartredig, un Archwilydd Mewnol Ardystiedig, mae'r rhan fwyaf o'r archwilwyr eraill yn Dechnegwyr Cyfrifo cymwysedig. Mae un aelod o'r tîm yn astudio ar gyfer cymhwyster Archwilydd Mewnol Ardystiedig (CIA), mae un arall yn gyfrifydd rhannol gymwysedig, ac mae aelod arall yn astudio ar gyfer cymhwyster Archwilydd Systemau Gwybodaeth Ardystiedig (CISA).

    - Arweinir y tîm Ymchwilio gan Archwilydd Grŵp gyda Thystysgrif CIPFA mewn Ymarfer Ymchwilio, ac mae ymchwilwyr wedi'u hyfforddi'n broffesiynol. Mae dau aelod yn swyddogion gwrth-dwyll sydd â chymwysterau proffesiynol, wedi'u hachredu gyda Phrifysgol Portsmouth, ac mae'r trydydd aelod tîm yn gyn-swyddog heddlu sydd â blynyddoedd lawer o arbenigedd proffesiynol.

7. Mae datblygu a hyfforddi archwilwyr yn barhaus yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau Archwilio ac Ymchwilio effeithiol a phroffesiynol. Mae Cynllun Adolygu Personol y Cyngor wedi'i fabwysiadu'n llawn ac mae'r timau'n asesu ei hunain yn erbyn y sgiliau y mae eu hangen ar gyfer ei rolau priodol. Mae hyn yn helpu i nodi cyfleoedd datblygu a hyfforddi tîm ac unigolion o fewn fframwaith rheoli perfformiad cadarn.

Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

CYLCH GORCHWYL

Datganiad o Ddiben

- Mae ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhan allweddol o broses lywodraethu corfforaethol Cyngor Caerdydd. Mae'n rhoi ffocws annibynnol lefel uchel ar drefniadau archwilio, sicrwydd a threfniadau adrodd sy'n sail i safonau ariannol a llywodraethu da.

- Diben ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i aelodau Cyngor Caerdydd a'i ddinasyddion a'i randdeiliaid ehangach, ar ddigonolrwydd fframwaith rheoli risg, amgylchedd rheolaeth fewnol ac asesu perfformiad y Cyngor. Mae'n cynnig adolygiad annibynnol o fframweithiau llywodraethu, asesu perfformiad, rheoli risg a rheoli Cyngor Caerdydd ac yn goruchwylio'r prosesau adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol. Mae'n goruchwylio archwilio mewnol ac archwilio allanol, gan gynorthwyo i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ac effeithlon ar waith.

Llywodraethu, Perfformiad, Risg a Rheolaeth

- Adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu da, gan gynnwys y fframwaith moesegol, ac ystyried adroddiadau a sicrwydd llywodraethu blynyddol.

- Adolygu Adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2021/22 a phob blwyddyn ariannol wedi hynny, a gwneud unrhyw argymhellion priodol ar gyfer newidiadau.

- Ystyried Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel pan ddaw i law, adolygu ymateb drafft y Cyngor i Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel, a gwneud unrhyw argymhellion priodol ar gyfer newidiadau.

- Adolygu ymateb drafft y Cyngor i unrhyw argymhellion gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n deillio o 'archwiliad arbennig' mewn perthynas â gofynion perfformiad y Cyngor, a gwneud unrhyw argymhellion priodol ar gyfer newidiadau.

- Adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol, a gwneud unrhyw adroddiadau ac argymhellion cysylltiedig.

- Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo ac ystyried a yw'n adlewyrchu'n gywir yr amgylchedd risg a sicrwydd cysylltiedig, gan ystyried barn archwilio mewnol ar gapasiti ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor.

- Ystyried trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

- Ystyried fframwaith sicrwydd y Cyngor a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor yn gywir.

- Monitro'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'n effeithiol drefniadau rheoli risg yn y Cyngor.

- Monitro cynnydd o ran mynd i'r afael â materion risg a adroddir i'r Pwyllgor.

- Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a monitro'r gwaith o roi camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith.

- Adolygu'r asesiad o risgiau twyll a'r niwed posibl i'r Cyngor gan dwyll a llygredd.

- Monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau gwrth-dwyll.

- Adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer partneriaethau neu gydweithrediadau arwyddocaol.

Archwilio Mewnol

- Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.

- Adolygu cynigion sy'n ymwneud â phenodi darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol a gwneud argymhellion.

- Cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol ar sail risg, sy'n cynnwys gofynion archwilio mewnol o ran adnoddau, yr ymagwedd at ddefnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd ac unrhyw waith sydd ei angen i ddibynnu ar y ffynonellau eraill hynny.

- Cymeradwyo newidiadau sylweddol dros dro i'r cynllun archwilio mewnol ar sail risg a gofynion o ran adnoddau.

- Gwneud ymholiadau priodol i'r rheolwyr a'r rheolwr archwilio er mwyn penderfynu a oes unrhyw gyfyngiadau amhriodol i gwmpas neu adnoddau.

- Ystyried unrhyw rwystrau rhag annibyniaeth neu wrthrychedd a ddaw o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y Rheolwr Archwilio y tu allan i archwilio mewnol. Cymeradwyo ac adolygu mesurau diogelu'n rheolaidd i leihau rhwystrau o'r fath.

- Ystyried adroddiadau gan y Rheolwr Archwilio am berfformiad yr adran Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol. Bydd y rhain yn cynnwys:

    - Diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion o bryder a chamau gweithredu sydd ar y gweill o ganlyniad i waith archwilio mewnol

    - Adroddiadau rheolaidd ar ganlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (RhSAG)

- Adroddiadau ar ddigwyddiadau pan nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â SAMSC a'r Nodyn Defnydd Llywodraeth Leol (NDLlL), sy'n ystyried a yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon sylweddol nes bod yn rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

- Ystyried adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio:

  - Y datganiad o'r lefel cydymffurfiaeth â SAMSC a NDLlL, yn ogystal â chanlyniadau'r RhSAG sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi pa mor ddibynadwy yw casgliadau'r archwiliad mewnol.

  - Y farn ar ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn – bydd y rhain yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

- Ystyried crynodebau adroddiadau archwilio mewnol penodol ar gais.

- Derbyn adroddiadau sy'n amlinellu'r camau gweithredu a gymerwyd lle mae'r Rheolwr Archwilio wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn lefel o risg sy'n annerbyniol o bosibl i'r awdurdod neu pan fo pryderon ynglŷn â chynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

- Cyfrannu at y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella ac yn benodol asesiad ansawdd allanol archwilio mewnol a gynhelir o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

- Ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol er mwyn cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo gwneud hynny'n ofynnol gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

- Rhoi mynediad rhydd a dilyffethair at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Rheolwr Archwilio, gan gynnwys y cyfle i gael cyfarfod preifat â'r Pwyllgor.

Archwilio Allanol

- Ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol a'r adroddiad i'r rheini sydd â'r dasg o lywodraethu.

- Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunir arnynt gyda'r archwilwyr allanol.
- Gwneud sylwadau ar gwmpas a dyfnder gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian.

- Comisiynu gwaith gan archwilio mewnol ac allanol.

- Cynghori ac argymell ar effeithiolrwydd perthnasoedd rhwng archwilio allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill.

Adrodd Ariannol

- Adolygu'r datganiad cyfrifon blynyddol. Yn benodol, ystyried a ddilynwyd polisïau cyfrifyddu priodol ac a oes pryderon sy'n codi o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad y mae angen tynnu sylw'r Cyngor atynt.

- Ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r rhai sydd â'r dasg o lywodraethu ar faterion sy'n codi o archwilio'r cyfrifon.

- Ceisio sicrwydd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer rheoli materion ariannol yr awdurdod.

- Ceisio sicrwydd bod y Cyngor wedi cydymffurfio â Strategaeth ac Arferion Rheoli Trysorlys trwy ddangos bod risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli'n effeithiol a thrwy ddilyn y perfformiad gorau sy'n gyson â'r risgiau hynny.

Trefniadau Atebolrwydd

- Adrodd i'r Cyngor ar ddarganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, trefniadau adrodd ariannol a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

- Adrodd i'r Cyngor yn flynyddol a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor, ei berfformiad mewn perthynas â'r Cylch Gorchwyl, a'i effeithiolrwydd o ran cyflawni ei ddiben.

- Codi proffil cywirdeb yn gyffredinol o fewn y Cyngor ac adrodd ar faterion o bryder i'r Aelod Cabinet unigol, i'r Pwyllgor Craffu perthnasol, i'r Cabinet neu i'r Cyngor fel y bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

- Gweithio mewn synergedd â phum Pwyllgor Craffu'r Cyngor a chysylltu â Phwyllgorau eraill y Cyngor fel y bo'n briodol i osgoi dyblygu mewn rhaglenni gwaith.

Hyfforddi a Datblygu

- Mynychu sesiynau hyfforddi perthnasol yn unol â'r Rhaglen Datblygu Aelodau gan gynnwys hyfforddiant arbenigol wedi'i deilwra ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio e.e. Rheoli'r Trysorlys.

RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLA (RhSAG)

'Mae Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (safon 1300) wedi'i chynllunio i alluogi gwerthusiad o gydymffurfiaeth yr adran Archwilio Mewnol â'r Safonau a gwerthusiad ynghylch p'un a yw archwilwyr mewnol yn cymhwyso'r Cod Moeseg.

Mae'r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgarwch archwilio mewnol ac fe'i defnyddir i nodi cyfleoedd i wella a'u cyflawni.

Egwyddorion allweddol y RhSAG:

- Mae'r Rheolwr Archwilio wedi sefydlu system o fonitro cydymffurfiaeth yn barhaus â'r safonau a'r Cod Moeseg fel rhan o bob ymgysylltiad archwilio, a system o adolygu ac adrodd rheolaidd.

- Cyflwynir adroddiadau cyfnodol rheolaidd ac Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol i'r Swyddog Adran 151 ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

- Mae ymrwymiad i wneud arolygiad allanol ar gydymffurfiaeth â SAMSC bob pum mlynedd.

Cyfrannu at y gwaith o sicrhau gwasanaeth effeithiol ac effeithlon:

- Mae gan bob Cyfarwyddiaeth reolwr perthynas y maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag ef i drafod risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg, cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio a datblygiad hwnnw, ac archwilio canlyniadau ac adborth.

- Mae'r Rheolwr Archwilio yn cysylltu'n rheolaidd â Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Swyddfa Archwilio Cymru, Uwch Reolwyr gan gynnwys y Prif Weithredwr y Swyddog Adran 151, a chymheiriaid yn Awdurdodau Lleol Cymru a Dinasoedd Craidd y DU.

- Cyflawnir ymarferion meincnodi er mwyn asesu perfformiad yn erbyn sefydliadau tebyg eraill ac adrodd ar amrywiannau sylweddol, a datblygu cynlluniau gweithredu a'u gweithredu lle y bo'n briodol.

- Mae adolygiadau personol blynyddol yn cynnwys asesiadau archwilydd yn erbyn fframwaith sgiliau a chymhwysedd, gan arwain at nodau a thargedau datblygu.

- Cyflawnir sicrwydd ansawdd drwy brosesau monitro ac adolygu ar adegau allweddol yn yr archwiliad, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r holl Godau Ymarfer a Safonau perthnasol.

- Mae'n ofynnol i bob Archwilydd gydymffurfio â'r Cod Moeseg, ac unrhyw safonau proffesiynol eraill ar gyfer y cymdeithasau y maent yn perthyn iddynt a Chodau Ymddygiad y Cyngor.

RhSAG - DULL GWEITHREDU

Mae'r RhSAG yn seiliedig ar ddull rheoli perfformiad, sy'n cynnwys 'pennu disgwyliadau', 'adolygu perfformiad', ac 'adrodd ar berfformiad' ar lefelau archwilydd unigol a thîm. Crynhoir y camau rheoli hyn fel a ganlyn.

1. Gosod disgwyliadau - Gyda disgwyliadau clir ar waith, gall archwilwyr ganolbwyntio ar gyflawni.
✓ Dyraniad Archwilio - Mae gan bob archwilydd ddyraniad chwarterol o waith, sy'n heriol ond yn gyraeddadwy. Mae archwilwyr yn gyfrifol am gyflawni eu dyraniad yn effeithiol ac yn brydlon. ✓ Cwmpasu ac Amcanion – Mae gan bob archwilydd amcanion clir a ddogfennir ar gyfer pob ymgysylltiad archwilio y mae'n gyfrifol am ei gyflawni. ✓ Adolygiad Byr - Pan ddefnyddir hanner yr amser archwilio, mae uwch aelod o'r tîm yn cwblhau adolygiad byr a chryno o gynnydd yn erbyn amcanion yr archwiliad. Gall hyn naill ai arwain at sicrwydd bod yr archwiliad yn cael ei gyflawni'n effeithiol, neu at ail-bennu disgwyliadau, gyda chamau'n cael eu datblygu i'r archwilydd gwblhau ymgysylltiad archwilio o ansawdd uchel yn brydlon. ✓ Adolygiadau Personol – Bob blwyddyn sefydlir nodau ac amcanion cyflawni, hyfforddi a datblygu ar gyfer pob archwilydd, gan gydnabod y sgiliau unigol a chyfunol sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun ar sail risg yn effeithiol yn y tymor presennol a'r tymor canolig.
2. Adolygu Perfformiad - Ailedrychir ar y disgwyliadau mewn adolygiadau sicrwydd ansawdd a rheoli.
✓ Monitro - Mae pob archwilydd yn mynychu cyfarfod monitro misol, lle y caiff ei 'Ddyraniad Archwilio' ei adolygu a materion eu nodi a'u datrys. ✓ Adolygiad Sicrwydd Ansawdd - Mae pob archwiliad yn destun adolygiad sicrwydd ansawdd gan aelod o'r tîm rheoli archwilio, er mwyn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel yn unol â'r Cod Moeseg a'r Safonau. Mae'r adolygiad yn ystyried ansawdd y dystiolaeth i gefnogi'r 'Amcanion' archwilio, a chyflawni camau gweithredu sy'n deillio o'r archwiliad 'Byr'. ✓ Asesiad Ôl-Archwilio – Ar ôl i bob archwiliad ddod i ben, mae'r archwilydd, ac uwch aelod o'r tîm, yn adolygu perfformiad yr archwilydd yn erbyn rhinweddau technegol ac ymddygiadol arfer gorau. Defnyddir arolwg boddhad cleientiaid hefyd i nodi'r broses archwilio a'r gwerth o safbwynt y cleient. Caiff unrhyw anghenion datblygu eu nodi a'u datblygu. ✓ Adolygiad Personol Bob Chwe Mis – Mesurir cynnydd yn erbyn yr amcanion a'r targedau yn 'Adolygiad Personol' pob Archwilydd, gan ystyried canfyddiadau a chanlyniadau'r gweithgareddau yn y cam rheoli 'Adolygu Perfformiad'. Gall arwain at amcanion, targedau a chefnogaeth newydd.
3. Adrodd ar Berfformiad - Defnyddir ystod o fesurau perfformiad ar gyfer adrodd ac adolygu.
○ Mae mesurau perfformiad craidd yn ymwneud â'r archwiliadau a gyflwynir yn brydlon, boddhad cleientiaid, argymhellion y cytunwyd arnynt/a weithredwyd, cynhyrchiant a chyflawni amcanion personol. ○ Mae gwybodaeth am berfformiad yn cael ei monitro'n rheolaidd gan y Rheolwr Archwilio ac fe'i hystyrir gan y Tîm Rheoli Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter. ○ Yn flynyddol, mae'r Rheolwr Archwilio yn adolygu ac yn adrodd ar gymhwyso a chanfyddiadau'r Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n sail i'r RhSAG i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae asesiad allanol o gydymffurfiad â'r SAMSC yn cael ei gwblhau a'i adrodd o leiaf bob pum mlynedd.

RhSAG - DULL GWEITHREDU (DIAGRAM)

'Canolbwyntio ar Allbwn a Rheoli Ansawdd'



Sicrwydd, cyngor a chraffter annibynnol a gwrthrychol

PROTOCOL ARCHWILIO

Atodiad F

Mae'r Protocol Archwilio yn rhoi amlinelliad o'r broses archwilio o'r cam gynllunio i adrodd

CYNLLUNIO

Y Cynllun Archwilio sy'n nodi cwmpas yr archwiliad, ar sail asesiad risg. Mae'r cynllun wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chaiff ei drafod gyda'r Cyfarwyddwyr.

Dyrennir ymrwymiadau archwilio o'r cynllun i Archwilwyr. Maent yn ymchwilio'r maes archwilio ac yn cyfarfod â'r cleient i ddeall y strategaethau, amcanion a'r risgiau perthnasol. Mae asesiad risg yn llywio amcanion a dull yr archwiliad.

Cam Rheoli 1 (Cynllunio'r Archwiliad) – Caiff yr asesiad risg ei adolygu gan aelod o'r tîm rheoli archwilio, a'i ddefnyddio i greu Cylch Gorchwyl yr archwiliad.

Caiff y Cylch Gorchwyl ei gyflwyno: mae'n nodi'r maes/meysydd sy'n destun archwiliad, yr amcanion, y dull a'r cofnodion y mae eu hangen. Anfonir y Cylch Gorchwyl at y rheolwr perthnasol (Rheolwr Llinell, RhG (ac at y Cyfarwyddwr os yw'n briodol)). Bydd y fframwaith archwilio yn cychwyn fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl.

DS – Ar gyfer gwasanaethau ymgynghorol, cynllunnir y canllaw / cymorth gyda'r rheolwr yn uniongyrchol a chofnodir yr amcanion ar gyfer ymrwymiadau sylweddol. Bydd trafodaethau rheolaidd â'r rheolwr sy'n adolygu trwy gydol yr archwiliad ond dim ond yng ngham rheoli 4 y bydd rheoli ffurfiol (Adolygiad Ôl Archwiliad).

GWAITH MAES

Fel arfer caiff ei drefnu ymlaen llaw er mwyn helpu lleihau torri ar draws. Caiff unrhyw faterion sylweddol eu codi cyn gynted ag y cânt eu hadnabod. Caiff y prif ganfyddiadau eu trafod ar ddiwedd yr ymweliad (lle y bo'n berthnasol) neu'n fuan wedyn.

Cam Rheoli 2 (Gwaith Maes Archwiliad) – Cynhelir Adolygiad Byr ar yr archwiliad gydag aelod o'r uwch dîm hanner ffordd trwy'r archwiliad fel prawf sicrwydd ansawdd a chynnydd. Cwblheir adolygiad llawn ar sicrwydd ansawdd pan fo'r gwaith maes wedi dod i ben a'r farn archwilio, allbwn ac argymhellion drafft wedi eu paratoi.

Pan fydd y gwaith maes wedi'i gwblhau, a chynnal adolygiad, caiff penderfyniad ei wneud ar a ddylid cyhoeddi Adroddiad ffurfiol neu Gynllyn Gweithredu, yn dibynnu ar y 'Barn Archwilio' gyffredinol.

ADRODD

Mae allbwn yr archwiliad a baratoir yn dibynnu ar y farn archwilio:

- Cynllun Gweithredu – Ar gyfer barn archwilio *Effeithiol* neu *Effeithiol gyda chyfle i Wella* (os nodir argymhellion);
- Adroddiad a Chynllun Gweithredu – Ar gyfer barn archwilio *Annigonol a Lle Mawr i Wella* neu *Anfoddhaol*.

Cam Rheoli 3 (Adrodd ar yr Archwiliad) – Pan fo barn archwilio yn nodi *Annigonol a Lle Mawr i Wella* neu *Anfoddhaol,* bydd Tîm Rheoli Archwilio yn ystyried yr adroddiad drafft cyn ei gyflwyno.

Trafodir yr Adroddiadau Drafft / Cynlluniau Gweithredu gyda'r Rheolwr Cleientiaid ac ystyrir y sylwadau mewn unrhyw Gynllun Terfynol / Cynllun Gweithredu. Cofnodir ymatebion y Tîm Rheoli i argymhellion yr archwiliad yn y Cynllun Gweithredu.

Caiff Adroddiad Terfynol neu Gynllun Gweithredu ei gyhoeddi i'r Cyfarwyddwr, y Rheolwr Gweithredol/Rheolwr Llinell a rhoddir cyfle i drafod yr adroddiad, neu roi sylwadau. Cyfeirir unrhyw argymhellion na chytunnir arnynt at y Cyfarwyddwr i'w hystyried.

Can Rheoli 4 (Adolygiad Ôl Archwiliad) – Pan gwblheir pob archwiliad, bydd yr archwilydd ac aelod o'r uwch dîm yn adolygu perfformiad yr archwilydd. Defnyddir arolwg boddhad cleient i nodi cyflwyniad a pherfformiad yr archwilydd o safbwynt y cleient. Gweithredir ar anghenion datblygu.

Bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd crynodeb o'r canfyddiadau sef Adroddiadau Annigonol ac Anfoddhaol i'r Prif Weithredwr ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ar gyfer pob Adroddiad *Anfoddhaol*, paratoir Crynodeb Gweithredol, caiff ei drafod gyda'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151, a'i adrodd i'r Aelod(au) Cabinet Portffolio perthnasol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

YMATEB

Ychwanegir argymhellion i'r 'Traciwr Argymhellion' yn SharePoint, y mae'r rheolwyr yn darparu diweddariadau ar gynnydd ac yn cyflwyno tystiolaeth o gyflawni camau cytunedig. Mae pob argymhelliad coch a choch/melyn yn gofyn am dystiolaeth o gwblhau er mwyn cael ei gau. Adroddir y traciwr argymhellion fel rhan o bob adroddiad cynnydd i gyfarfodydd y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio, a chaiff ei drafod mewn Cyfarfodydd Rheolwyr Perthynas â Chyfarwyddwyr.

Trefnir archwiliad olynol chwe mis ar ôl canlyniad yr archwiliad ar gyfer yr Adroddiadau Barn Archwilio Anfoddhaol.